

Awdurdod Meinwe Ddynol

Gwybodaeth am drawsblaniadau gan roddwyr byw

Mae'r rhan fwyaf o organau a gynigir i'w trawsblannu yn dod gan bobl sydd wedi marw, ond bob blwyddyn, mae mwy a mwy o bobl yn derbyn organau gan roddwyr sy'n dal yn fyw. Mae'r daflen hon yn cynnig gwybodaeth i roddwr byw sy'n ystyried cynnig organ i'w thrawsblannu. Mae'n rhoi manylion am:

- Y gyfraith parthed trawsblaniadau gan roddwyr byw (Deddf Meinwe Ddynol 2004) a gwaith y sefydliad sy'n rheoleiddio'r trawsblaniadau hyn (yr Awdurdod Meinwe Ddynol);
- Y broses asesu y mae'n rhaid i'r rhoddwr a'r person sydd angen trawsblaniad (y derbynnydd) fod yn rhan ohoni cyn y gall y trawsblaniad ddigwydd;
- Pwy all fod yn rhoddwr byw; a
- Sut i roi caniatâd dilys neu gydsynio i roi neu dderbyn organ hanfodol (er enghraifft, aren neu ran o afu)

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y daflen hon, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall y byddwch yn ei derbyn. Bydd hyn yn fodd i chi feddu ar wybodaeth lawn o'r hyn sy'n ddisgwyliedig i'r rhoddwr ar y naill law a'r person sy'n derbyn yr organ ar y llaw arall.

Beth yw'r Awdurdod Meinwe Ddynol?

Ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd, diweddarodd y Llywodraeth y gyfraith parthed trawsblaniadau. Mae'r ddeddf newydd - Deddf Meinwe Ddynol 2004 - yn adlewyrchu'r cynnydd mewn arfer da ac yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r drefn briodol wrth gydsynio i drawsblaniad.

Sefydlwyd yr Awdurdod Meinwe Ddynol i gynnig cyngor ac arweiniad am y Ddeddf Meinwe Ddynol ac i sicrhau bod pobl yn dilyn y canllawiau. Ein nod yw cefnogi cleifion, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn y maes hwn trwy godi hyder yn y systemau sy'n bodoli. Yn ein mysg, mae aelodau lleyg (aelodau heb ddiddordeb proffesiynol) ac aelodau proffesiynol, gan gynnwys uwch arbenigwr trawsblannu.

Fel rhan o'r ddeddf newydd, bydd angen i ni neu'n cynrychiolydd enwebedig – a elwir yn Aseswr Annibynnol – gymeradwyo pob triniaeth drawsblannu sy'n ymwneud â rhoddwr sy'n fyw. Dyma fydd y drefn boed y rhoddwr yn perthyn i'r derbynnydd ai peidio.

Pam trawsblannu gan roddwyr byw?

Mae methiant ar ran yr organau yn digwydd pan na fydd organau hanfodol megis yr arenau, y galon, yr ysgyfaint, yr afu neu'r pancreas yn gweithio'n llawn ac yn

arwain at anhwylderau a all fod yn fygythiad i fywyd. Byddai nifer o bobl sydd ag organau sy'n methu yn dewis cael trawsblaniad, ac mae mwy a mwy o bobl yn flynyddol yn cael budd o dderbyn trawsblaniad gan roddwyr byw.

Trawsblennir arenau rhoddwyr byw yn aml, ac mae'r trawsblaniadau hyn yn llwyddiannus iawn fel arfer. Wrth gynnig aren, mae'r risgiau i'r rhoddwr yn fychan ac maent yn cael eu lleihau ymhellach trwy asesu'r rhoddwr yn drylwyr. Fodd bynnag mae rhoi aren yn golygu triniaeth lawfeddygol fawr, ac mae'n rhaid deall hyn cyn symud ymlaen i drefnu'r driniaeth. Os gellir trefnu trawsblaniad aren ymlaen llaw, mae hyn yn cynnig y gorau i'r rhoddwr a'r derbynnydd, a gall olygu na fydd bellach angen triniaeth ddialysis. Yn y tymor hir, does dim effaith ar iechyd person sy'n cael ei asesu fel rhywun iach ac addas i gynnig aren.

Fel arfer, nid yw personau byw yn rhoi organau eraill, ond o bryd i'w gilydd, bydd pobl yn dewis cynnig rhan o'u hafu, ysgyfaint neu goluddyn ar gyfer eu trawsblannu. Mae gwneud hyn yn fwy cymhleth a rhaid ystyried y risgiau i'r rhoddwr yn ofalus iawn er mwyn sicrhau eu bod yn dderbyniol. Gall eich canolfan drawsblannu leol gynnig mwy o wybodaeth i chi er mwyn i chi gael gwybod yn iawn beth sydd ynghlwm â'r broses.

Pwy all fod yn rhoddwr byw?

Mae canlyniadau trawsblannu aren rhwng rhoddwr a derbynnydd nad ydynt yn perthyn trwy waed yr un mor llwyddiannus â thrawsblaniad rhwng rhoddwr a derbynnydd sy'n perthyn (yn enetigol). Yn y gorffennol, roedd trawsblaniadau gan roddwyr byw yn cael eu cynnig i berthnasau genetig ac i bobl gyda chyswllt emosiynol agos. Mae'r Ddeddf Meinwe Ddynol yn fodd i fod yn fwy hyblyg wrth ystyried pwy all fod yn rhoddwr a phwy all dderbyn organ, fel y gall mwy o bobl gael budd o drawsblaniad gan berson byw.

Mae'r opsiynau ar gyfer trawsblaniadau gan roddwr byw fel a ganlyn.

- 1 Gellir paru rhoddwr a derbynnydd gyda grwpiau gwaed neu fath o feinwe nad ydynt yn cydweddu (neu sy'n anghydnaws) gyda rhoddwr a derbynnydd arall yn yr un sefyllfa. Gelwir hyn yn 'rhodd baredig'. Weithiau, gall mwy na dau roddwr a dau dderbynnydd fod yn rhan o'r drefn (gelwir hyn yn 'rhodd gydgyfrannog') ond bydd pob derbynnydd yn cael budd o drawsblaniad na fyddent wedi ei gael fel arall.

Dim ond ar gyfer trawsblannu arenau y cynigir rhoddion paredig neu roddion cydgyfrannog. Trefnir bod llawdriniaethau'r rhoddwyr a'r derbynwyr yn digwydd ar yr un adeg fel y gellir cyfnewid organau ar yr un pryd.

Gall eich canolfan drawsblannu yn lleol gynnig mwy o wybodaeth i chi ac asesu os ydych chi'n addas i roi'ch enw ymlaen i fod yn rhan o'r drefn. Os

byddwch yn addas, bydd eich manylion yn cael eu rhoi ar gofrestr genedlaethol lle gellir eu paru gyda phersonau addas.

- 2 Gellir ystyried person byw nad yw erioed wedi cyfarfod y derbynnnydd posib i fod yn rhoddwr. Gelwir hyn yn 'rhodd allgarol ddigyfeiriedig'.

Os byddwch am gynnig organ (aren fel arfer) i dderbynnnydd anhysbys, cysylltwch â'ch canolfan drawsblannu yn lleol er mwyn i chi gael eich asesu. Os byddwch yn cael eich asesu yn rhoddwr addas, ac am symud ymlaen, bydd eich enw yn cael ei anfon ymlaen i gynllun dyrannu cenedlaethol lle bydd yn cael ei baru â pherson addas. Mae'r drefn o baru organau gan bobl a fu farw gyda chleifion ar y rhestr aros yn gweithio yn yr un modd.

Mae ystyriaethau arbennig wrth drefnu rhodd baredig neu gydyfrannog a rhodd allgarol ddigyfeiriedig, gan fod y rhain yn wahanol iawn i sefyllfa rhoddwr byw arferol, lle mae'r rhoddwr a'r derbynnnydd yn adnabod ei gilydd. Mae'n bwysig bod y rhoddwr a'r derbynnnydd yn parhau i fod yn anhysbys a bod cyfrinachedd yn cael ei barchu.

Asesiad a chaniatâd: beth mae'n ei olygu?

Cyn y gall trawsblaniad gan roddwr byw ddigwydd, mae'n rhaid asesu'r rhoddwr a'r derbynnnydd yn drylwyr er mwyn gwneud yn siŵr bod y sefyllfa yn un ddiogel ac addas i'r ddau berson. Mae hyn yn cynnwys profion meddygol, profion cydweddu a thrafodaethau am risgiau a manteision y drefn. Mae asesiad yn sicrhau bod y rhoddwr a'r derbynnnydd yn gallu rhoi caniatâd llawn ar sail y wybodaeth orau sydd ar gael.

Lle bo hynny'n bosibl, bydd gan y rhoddwr a'r derbynnnydd eu hymgyngorwr eu hunain sydd yn gyfrifol am eu lles. Bydd aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd yn ymwneud ag asesu'r rhoddwr a'r derbynnnydd. Mae'r rhoddwr a'r derbynnnydd yn hollol rydd i dynnu'n ôl o'r cynllun ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod asesu, a hyd at amser y llawdriniaeth.

Beth ydy'r broses asesu annibynnol?

Rhaid i bob rhoddwr a derbynnnydd weld Aseswr Annibynnol a fydd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn rhoi sêl ei fendith i'r llawdriniaeth. Mae'r Aseswr Annibynnol yn gweithredu ar ein rhan ac yn annibynnol ar y timau gofal iechyd sydd yn gyfrifol am y rhoddwr a'r derbynnnydd.

Bydd yr Aseswr Annibynnol yn cyfweld y rhoddwr a'r derbynnnydd yn unigol a gyda'i gilydd, ac yna'n ysgrifennu adroddiad. Pwrpas hyn yw sicrhau bod y rhoddwr a'r derbynnnydd wedi eu hasesu'n drylwyr ac yn deall beth yw goblygiadau rhoi a derbyn organ. Rhaid i'r Aseswr Annibynnol gael ei fodloni nad yw'r rhoddwr o dan bwysau i gymryd rhan ac yn rhoi ei ganiatâd yn

wirfoddol. Yn benodol, bydd yr Aseswr Annibynnol yn rhoi barn ar natur y berthynas rhwng y rhoddwr a'r derbynnydd, a'r cymhelliad i wneud y rhodd. Rhaid i'r Aseswr Annibynnol sicrhau bod y berthynas yn ddilys ac nad oes cymhelliad ariannol neu gymhelliad arall. Pan fo bwriad i blentyn fod yn dderbynnydd, bydd yr oedolyn sy'n rhoi caniatâd ar ran y plentyn gyda hwy yn y cyfweiliadau.

Bydd yr Aseswr Annibynnol yn gofyn i'r rhoddwr a'r derbynnydd ddangos dogfennau sy'n nodi natur eu perthynas. Mae'r math o dystiolaeth sydd ei hangen yn amrywio yn ôl natur y berthynas, a bydd y ganolfan drawsblannu yn gallu cynnig cyngor pellach.

Pan fo rhoddwr a derbynnydd yn adnabod ei gilydd, gall yr Aseswr Annibynnol gymeradwyo'r trawsblaniad unwaith y bydd yn fodlon. Mewn achos prin lle na fydd yr Aseswr Annibynnol yn gallu cymeradwyo'r trawsblaniad, bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at yr Awdurdod Meinwe Ddynol i'w ystyried. Mewn achosion prineithriadol, pan ystyrir plentyn yn rhoddwr byw posibl, bydd yr achos yn cael ei gyfeirio atom ni.

Mewn achos o rodd baredig neu gydgyfrannog a rhodd allgarol ddigyfeiriedig, bydd yr achos yn cael ei gyfeirio atom ni i gael caniatâd terfynol unwaith y bydd yr Aseswr Annibynnol wedi cwblhau ei asesiad yn lleol.

Nid yw'r broses asesu annibynnol yn angenrheidiol pan fo organ yn cael ei thynnu fel rhan o driniaeth feddygol lle mae'r claf yn fodlon bod yn rhoddwr byw. Enghraifft o hyn yw pan fydd y galon yn cael ei thynnu fel rhan o lawdriniaeth i drawsblannu calon ac ysgyfaint, a lle defnyddir y galon wedyn i'w thrawsblannu. Yn y sefyllfa hon, bydd y person sy'n derbyn y galon yn cael ei enwi unwaith y bydd wedi ei thynnu. Gelwir hyn yn 'rhodd ddomino ddigyfeiriedig'.

Noder

Mae'n drosedd cynnal llawdriniaeth i drawsblannu organ o un person byw i'r llall heb gydymffurfio â rheolau'r Ddeddf Meinwe Ddynol. Mae hyn yn cynnwys cael caniatâd dilys gan y rhoddwr a'r derbynnydd. Mae'n drosedd ymwneud â phrynu a gwerthu organau dynol, neu hysbysebu i brynu neu werthu organau dynol. Gall y gosb am y troseddau hyn fod yn ddeddfryd o garchar o hyd at dair blynedd, neu ddirwy, neu'n gyfuniad o'r ddau.

Mwy o wybodaeth

Arweiniad yn unig yw'r daflen hon. Am fwy o wybodaeth amdanom ni neu am y Ddeddf Meinwe Ddynol ewch i **www.hta.gov.uk** neu cysylltwch â:

Awdurdod Meinwe Ddynol/Human Tissue Authority

Finlaison House
15–17 Furnival Street
Llundain
EC4A 1AB.

Ffôn 020 7211 3400

Ffacs 020 7211 3430

E-bost enquiries@hta.gov.uk

Mae'r daflen hon ar gael ar ein gwefan yn Gymraeg, Urdu, Gujarati, Punjabi, Hindi a Bengali.

Cyhoeddwyd ym Mehefin 2006.

Hawlfraint: Awdurdod Meinwe Ddynol